# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Geraint Owens | Adran Etholiadol: | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Erbyn hyn, e-bost yw'r prif ddull cyfathrebu ag etholwyr. Serch hynny, mae dulliau cyfathrebu eraill yn parhau i fod yn bwysig i nifer sylweddol o etholwyr.

Rwyf wedi buddsoddi mewn technoleg Protocol Llais dros y Rhyngrwyd sy'n galluogi preswylwyr i anfon neges ataf lle bynnag rwyf, trwy ddeialu rhif ffôn Abertawe cyffredin.

Yn ogystal â chydweithwyr ward, rwyf wedi mynd i nifer o gymorthfeydd trwy gydol y flwyddyn. Er bod technoleg newydd yn bwysig, mae lle o hyd ar gyfer cymorthfeydd wyneb yn wyneb. Nid oes cyfrif e-bost gan bawb ac mae'n well ymdrin â rhai materion wyneb yn wyneb. Cymhorthfa arbennig o ddefnyddiol oedd un pan ddaeth grŵp mawr o breswylwyr i drafod yr un mater. Ar y cyd â'm tri chydweithiwr ward, roedd hyn yn fy ngalluogi i gyflwyno barn y preswylwyr i'r adran berthnasol.

Rwyf wedi mynd i nifer o gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT).

Yn ogystal â chydweithwyr ward, rwyf wedi trefnu cyfarfodydd ar faterion penodol a godwyd gan etholwyr.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ym Mlwyddyn Ddinesig 2015-2016 wrth symud mwy o gyfarfodydd i amseroedd sy'n fwy addas i gynghorwyr â swyddi yn ystod y dydd y tu allan i faes gwleidyddiaeth. Rwyf wedi cael fy symud oddi ar bwyllgorau sy'n cyfarfod yn ystod y diwrnod gwaith i rai sy'n cyfarfod yn nes ymlaen yn y dydd. Mae hyn wedi fy ngalluogi i gymryd rhan mewn nifer cynyddol o gyfarfodydd.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 0 | / | 5 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Y Cyngor | 9 | / | 18 | 50 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 0 | / | 4 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 7 | / | 15 | 47 | % |
| **CYFFREDINOL** | **22** | **/** | **54** | 41 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi mynd i ddigwyddiadau ym Mharc Ravenhill i gefnogi gwaith ardderchog y grŵp Cyfeillion Parc Ravenhill.
Yn ogystal â'm cydweithwyr ward, cefnogais arwyddion ffyrdd newydd "Croeso i..." ar gyfer cymunedau amrywiol yn Ward y Cocyd.
Eto, gyda chydweithwyr ward, cefnogais gyflwyno parth 20 milltir yr awr newydd ac awgrymu gwelliannau a oedd yn adeiladu ar y cynnig gwreiddiol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiwn hyfforddi ganlynol: 09/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn.
Rwyf hefyd wedi defnyddio fy mhrofiad o weithio am lawer o flynyddoedd fel rheolwr masnachol yn y sector gwirfoddol yn fy rôl fel cynghorydd.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel cynghorydd, rwy'n ymwybodol y cefais f'ethol fel cynghorydd Llafur i gefnogi rhaglen wleidyddol benodol. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod gennyf gyfrifoldeb i'm holl etholwyr, p'un a wnaethant bleidleisio drosof i, rhywun arall neu neb o gwbl, ar lawer o faterion nad ydynt yn ymwneud â gwleidyddiaeth bleidiol o gwbl.

Rydym eisoes wedi dechrau gweld effeithiau toriadau yn yr arian sydd ar gael i awdurdodau lleol ac, er bod y weithrediaeth yn gweithio'n galed i wella effeithlonrwydd i leihau eu heffaith, rhan bwysig o'm rôl fydd sicrhau bod y cymunedau rwy'n eu cynrychioli'n cael eu cyfran deg.

Fel cynghorydd mainc gefn ac aelod o grŵp Llafur y mae ganddo fwyafrif ar y cyngor, rwy'n gweld bod dwy agwedd i'r rôl hon.
1. Cefnogi'r weithrediaeth wleidyddol a'i rhaglen fel aelod o'r grŵp pleidiol mwyaf.
2. Gweithredu fel cyfaill beirniadol ar elfennau gwleidyddol a phroffesiynol y weithrediaeth.
Fodd bynnag, mae gennyf un rôl led-weithredol, fel cynrychiolydd Dinas a Sir Abertawe ar Gyd-bwyllgor Cymru a Lloegr ar Orfodi Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain (PATROL). Rôl y corff yw sicrhau arfer da wrth orfodi rheoliadau parcio a sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i ddull apelio.
Fy rôl i yno yw sicrhau bod pobl Abertawe'n cael bargen dda o'r sefydliad hwn. Rwyf wedi cael f'ethol i bwyllgor gweithredol y corff hwnnw ac yn mynd i gyfarfodydd y tu allan i Abertawe'n rheolaidd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 17.06.2016 |